

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

Dyddiad:

7fed Mawrth, 2024.

Presenol

John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg);

Ymddiheuriadau

Cynghorydd June Jones a'r Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Edward Evans (Bryncir), Jess Williams (Penmorfa)

Datgan Buddiant

Neb

Penderfyniadau

Cynllun Heddlu Ysglion

Soniwyd fod y Cynllun Heddlu ysgolion yn darparu deilliannau addysgiadol pwysig iawn. Roedd siomedigaeth lwyr ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i roi gorau i ariannu'r cynllun. Clerc i gysylltu gyda'r Aelod Cynulliad a Seneddol lleol a hefyd gofyn i gynghorau cymuned eraill am eu cefnogaeth.

Etholiad

Derbyniwyd anfoneb atgoffa gan Gyngor Gwynedd am ddarparu gwasanaeth etholiadol yn 2019. Trafodwyd yr anfoneb ac mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i deimlo yn gryf na ddylid defnyddio arian trethdalwyr i dalu'n llawn am wasanaeth israddol gan Gyngor Gwynedd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn ôl gyda Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt ddod i un o'r cyfarfodydd misol a hefyd i egluro unwaith yn rhagor pam na fydd y Cyngor Cymuned yn talu'r anfoneb yn ei gyfanrwydd.

Ceisiadau Cynllunio

Rhif Cais: C24/0108/36/DT

Lleoliad: Cae Meini, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9TQ

Bwriad: Gosod offer trin carthion newydd. **(Dim gwrthwynebiad)**

Rhif Cais: NP2/16/389E

Lleoliad: Beudy Parc, Golan, LL51 9AQ

Bwriad: Adeiladu estyniad cefn unllawr i'r edrychiad cefn **(Dim gwrthwynebiad)**

Rhif Cais: NP2/16/T402C

Lleoliad: Minffordd House, Garndolbenmaen. LL51 9TX

Bwriad: Ail-doi arfaethedig (**Dim gwrthwynebiad**)